

Eich Hawliau

Beth ydy "damwain feddygol"?

Os oes rhywbeth yn mynd o chwith pan fyddwch yn cael triniaeth feddygol, gelwir hyn weithiau yn 'ddamwain feddygol' neu yn 'ddigwyddiad niwiediol'. Os nad ydy'ch triniaeth wedi gweithio neu os bu cymhlethdodau, dydy hynny ddim bob amser yn golygu bod camgymeriad wedi'i wneud neu bod esgeulustod wedi bod. Mewn rhai achosion, rhaid i chi dderbyn camgymeriadau neu gymhlethdodau fel risgiau na ellir eu hosgoi o'r driniaeth. Er enghraifft, os ydych yn cael llawdriniaeth fawr ar y galon, gallwch ddisgwyl y bydd yna risgiau oherwydd y llawdriniaeth. Ond gellir cael cymhlethdodau gyda mân driniaethau hefyd.

'Eseulustod clinigol' ydy'r term cyfreithiol a ddefnyddir i ddisgrifio damwain feddygol lle mae claf wedi'i niweidio, nid oherwydd cymhlethdod y gellid fod wedi'i osgoi ond oherwydd nad ydy meddyg neu gweithiwr gofal iechyd proffesiynol arall wedi rhoi'r safon cywir o ofal. Dydy hynny ddim bob amser yn golygu bod y person hwnnw yn anghymwys. Gall yn syml olygu eu bod wedi gwneud camgymeriad na ddylen nhw fod wedi ei wneud mewn achos neilltuol.

Mae esgeulustod clinigol yn cynnwys pethau fel:

- Gwneud camgymeriad yn ystod llawdriniaeth;
- Rhoi'r cyffur anghywir; neu
- Gwneud y diagnosis anghywir.

Gall esgeulustod clinigol hefyd gynnwys peidio â gwneud pethau y dylid fod wedi'u gwneud, fel:

- Peidio â rhoi'r driniaeth yr oeddech ei hangen;
- Peidio â chael eich caniatâd (cytundeb) i driniaeth; neu
- Peidio â'ch rhybuddio am beryglon math neilltuol o driniaeth.

Os ydych chi neu berthynas wedi dioddef esgeulustod clinigol, efallai y gallwch hawlio iawndal. Gweler yr adran 'Pryd y gallaf hawlio iawndal?'

Beth ddylwn i ei wneud os ydw i wedi profi damwain feddygol?

Os ydych wedi cael anaf yn ystod triniaeth, rhaid i chi sicrhau i ddechrau eich bod yn cael y driniaeth gywir neu ceisio cywiro'r anaf. Efallai y bydd angen i chi gael ail farn neu ofyn i'ch meddyg eich cyfeirio at ysbyty neu glinig arall.

Mae'n debyg y byddwch yn teimlo'n ofidus ac yn ddrislyd am yr hyn sydd wedi digwydd, ac angen cyngor, gwybodaeth a chymorth. Gallwch gael hynny gan ffrindiau neu deulu neu gan grwpiau cymorth arbenigol. Gallwch hefyd siarad gyda'ch neddyg am yr hyn sydd wedi digwydd i weld ydyn nhw'n gallu helpu os ydych yn teimlo'n gyfforddus ynglŷn â hynny ac os ydych yn meddwl y byddan nhw'n deall. Gall AvMA hefyd eich rhoi mewn cysylltiad gyda grwpiau cefnogi perthnasol neu gallwch ymuno â'n fforwm drafod ar-lein.

Os nad ydych chi neu'ch partner yn gallu gweithio o ganlyniad i'r ddamwain, dylech gael cyngor am fudd-aliadau y gallwch fod â hawl i'w derbyn a sut i ddelio gydag unrhyw ddyledion sydd wedi cronni. Mae eich Cyngor ar Bopeth Lleol yn lle da i gychwyn.

Pa gamau alla'i eu cymryd?

Ar ôl i chi gymryd camau i ofalu am eich iechyd, dylech feddwl am yr hyn yr ydych eisiau ei wneud nesaf. I ddechrau dylech feddwl am beth yr ydych eisiau ei weld yn digwydd. Efallai eich bod eisiau:

- esboniad ac ymddiheuriad;
- sicrhau na chaiff yr un camgymeriad ei wneud eto (allai olygu disgyblu neu ailhyfforddi'r person sy'n gyfrifol, er enghraifft) ac/neu iawndal.

Gallwch i ddechrau feddwl am fynd at gyfreithiwr. Ond cyn gwneud hynny, dylech feddwl am y dewisiadau eraill ar gyfer gweithio allan beth sydd wedi digwydd, a beth yr ydych eisiau ei weld yn cael ei wneud am hynny.

Mae'n bwysig deall bod cymryd camau cyfreithiol yn golygu cael iawndal yn unig. Efallai bod pethau eraill (fel ymddiheuriad) yn bwysicach i chi. Ac unwaith y byddwch yn dechrau hawliad cyfreithiol efallai na fyddwch yn gallu cymryd camau eraill. Hefyd, efallai y bydd angen i chi wneud ymholiadau am yr hyn a ddigwyddodd i chi i ddechrau cyn i chi wybod os oes gennych sail am hawliad cyfreithiol.

Sut mae modd imi ddarganfod rhagor am yr hyn a ddigwyddodd imi?

I ddechrau dylech holi eich meddyg (neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall a fu'n cymryd rhan yn eich triniaeth) am esboniad manwl. Mae meddygon wedi'u rhwymo gan eu cod ymddygiad proffesiynol i roi esboniad chi o'r hyn a ddigwyddodd yn ystod eich triniaeth ac, os yn briodol, ymddiheuriad. Ond dydy hyn ddim yn digwydd bob amser, ac efallai na fyddwch yn derbyn yr holl wybodaeth yr ydych ei eisiau. Os felly, mae sawl cam arall y gallwch eu cymryd.

Cymorth Anffurfiol

Os ydy hi'n anodd delio gyda'r bobl a fu'n eich trin, gallwch ofyn am help Swyddog Cydlynw a Chynghori Cleifion (PALS) neu Reolwr Gwasanaethau Cwsmeriaid os oes un ar gael. Gweler 'Cymorth Pellach'.

Gweithdrefn Gwyno

Oni bai bod eich triniaeth yn breifat, gallwch wneud cwyn trwy ddefnyddio Gweithdrefn Gwynion y GIG. Dylai manylion am sut i wneud hyn fod ar gael o bractis eich meddyg teulu, clinig neu ysbyty. Os oes modd, dylech roi eich cwyn mewn ysgrifen a chynnwys unrhyw gwestiynau penodol yr hoffech atebion iddyn nhw. Am ragor o wybodaeth ar Weithdrefn Gwynion y GIG gweler ein taflen arbenigol 'Gweithdrefn Gwynion y GIG'. Am gwynion ynghylch triniaeth breifat, gweler yr adran 'Beth alla'i wneud os oedd fy nhriniaeth yn breifat?'

Gyda'r GIG mae yna gyfyngiad amser o 6 mis i wneud cwyn o'r amser yr oeddech yn gwybod bod gennych achos i gwyno (neu 1 blwyddyn i gyd) ond dylai darparwydd gofal iechyd edrych fel rheol ar gwyn a wneir ar ôl y cyfnod yma, yn enwedig os oes rheswm da pam nad oeddech wedi gallu cwyno cyn hynny.

Weithiau mae cwynion yn gallu cymryd misoedd i'w datrys. Os ydych yn gwneud cwyn ond hefyd yn ystyried camau cyfreithiol, mae'n bwysig nad ydych yn caniatáu i'ch hawliad cyfreithiol fynd y tu hwnt i'r cyfyngiad amser cyfreithiol o dair blynedd tra bod eich cwyn yn cael ei hymchwilio. Gweler yr adran 'Faint o amser sydd gennyf i hawlio iawndal?'

Cael eich cofnodion meddygol

Gofynnwch am gopiâu o'ch cofnodion meddygol gan eich meddyg neu o'r ysbyty neu'r clinig a fu'n eich trin. Mae gennych hawl cyfreithiol i gael y rhain o dan y Ddeddf Diogelu Data 1998 (neu mewn rhai achosion, Deddf Mynediad i Gofnodion Iechyd 1990) ond efallai y bydd rhaid i chi dalu ffi mynediad o £10 a chostau llungopïo. Am ragor o wybodaeth am gael cofnodion meddygol, gweler ein taflen arbenigol 'Mynediad i Gofnodion Meddygol'.

Cysylltu â chorff proffesiynol

Gall eich cwyn ganolbwyntio ar feddyg unigol neu weithiwr gofal iechyd proffesiynol arall, er enghraifft, oherwydd eich bod yn meddwl eu bod wedi gweithredu'n eithriadol o amhroffesiynol neu yn berygl i gleifion eraill. Os felly, dylech feddwl am gwyno wrth eu corff rheoleiddiol proffesiynol os ydyn nhw'n aelod o un. Fe fydd y cyrff hyn yn ymchwilio dim ond os oes cwestiwn am ffitrwydd yr unigolyn i ymarfer. Mae yna wahanol gyrff ar gyfer gwahanol broffesiynau (er enghraifft y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC) i feddygon, neu'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC) i nyrsus, bydwreagedd ac ymwelwyr iechyd). Gweler yr adran 'Cymorth Pellach' am fanylion. Am ragor o wybodaeth gweler ein taflen arbenigol 'Ffitrwydd Gweithwyr Iechyd Proffesiynol i Ymarfer'.

Os ydych yn delio gydag achos lle mae perthynas wedi marw yn ystod neu ar ôl triniaeth, cysylltwch â'r Crwner, gweler yr adran 'Beth ddylwn ei wneud os ydy perthynas wedi marw o ganlyniad i ddamwain feddygol?'

Cofiwch y gall gwneud cwyn roi esboniad i chi, nad yw efallai mor llawn na mor gywir ag yr hoffech. Er mwyn cael y gorau allan o weithdrefn gwynion, mae'n syniad da gofyn am gyngor arbenigol.

Gallwch gael cyngor gan y canlynol:

- Gall cyrff cyngori lleol helpu gyda chwynion GIG ac efallai eich helpu i ddrafftio llythyrau neu fynd gyda chi i gyfarfodydd. Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion Annibynnol Annibynnol (ICAS) yn Lloegr. Yng Nghymru, mae Cyngorau Iechyd Cymuned yn darparu cyngor a chymorth gyda chwynion . Yn yr Alban gallwch gysylltu gyda'ch Cyngor Iechyd ac yn Ngogledd Iwerddon gyda'ch Cyngor Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.
- Gweithredu yn erbyn Damweiniau Meddygol (AvMA): elusen sy'n gallu eich cyfeirio at ffynonellau eraill o gymorth arbenigol, ymarferol neu emosiynol yn ogystal â darparu gwybodaeth feddygol a chymorth cyfreithiol i wneud cwyn effeithiol neu i geisio cael iawndal.
- Am fanylion pellach, gweler yr adran 'Cymorth Pellach'

Cadw cofnod

Os ydych yn meddwl eich bod efallai wedi dioddef damwain feddygol, mae'n syniad da cadw cofnod neu ddyddiadur o bopeth sy'n digwydd i chi yn ystod ac ar ôl eich triniaeth. Fe fydd hyn yn ddefnyddiol os ydych yn penderfynu gwneud cwyn. Fe fydd hefyd yn gymorth i'ch cyfreithiwr pan fydd yn ymchwilio i'ch achos os ydych yn penderfynu gwneud hawliad cyfreithiol.

Os ydych yn meddwl am gymryd camau cyfreithiol, dylech hefyd gadw cofnod o unrhyw arian ychwanegol y mae'n rhaid i chi ei wario oherwydd eich anaf (er enghraifft, costau tacsî, colli enillion a chostau gofal). Gall ffotograffau o anafiadau fod yn ddefnyddiol weithiau hefyd, yn enwedig ar gyfer camau cyfreithiol. Ond peidiwch â thynnu lluniau o anaf neu gyflwr os bydd hynny'n achosi gofid i chi, neu i'r person gyda'r anaf os ydych yn eu cynorthwyo.

Pryd alla'i hawlio iawndal?

Os ydych wedi derbyn anaf, corfforol neu seicolegol, oherwydd esgeulustod darparrydd gofal iechyd, efallai y byddwch yn gallu hawlio iawndal. Mae angen i'r anaf fod yn ddigon difrifol i'w gwneud yn werth chweil talu costau gwneud hawliad. Mae'n debygol nad ydy hi ddim yn werth cymryd camau cyfreithiol os ydy eich anaf:

- yn gymharol fach a'ch bod yn gwella o fewn ychydig ddyddiau neu wythnosau; a
- dydych chi ddim yn colli llawer o arian (e.e. enillion) oherwydd hynny

Dylech gael cyngor oddi wrth Gweithredu yn erbyn Damweiniau Meddygol os nad ydych yn sicr a ddylech feddwl am geisio cael iawndal ai peidio. Os oes angen, gallwn eich cyfeirio at gyfreithiwr esgeulustod clinigol arbenigol.

Mae'n bwysig deall bod camau esgeulustod clinigol yn ymwneud yn unig â hawlio iawndal. Ni all y llysoedd:

- disgyblu gweithiwr gofal proffesiynol (er enghraifft, atal meddyg teulu rhag ymarfer);
- gorfodi ysbyty i newld sut mae'n gweithio; neu
- gwneud i feddyg ymddiheuro.

Os nad iawndal ydy eich prif nod yna gallwch ddal i ystyried camau eraill (er enghraifft, cwyn i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol os ydych yn meddwl bod eich meddyg wedi gweithredu'n amhroffesiynol neu wedi gwneud camgymeriad difrifol y dylid eu disgyblu amdano). Os oes gennych bryderon difrifol am ansawdd y gofal a ddarperir gan gorff GIG, efallai y byddwch eisiau adrodd am eich cwynion wrth y Comisiwn Gofal Iechyd hefyd – y corff sy'n gyfrifol am wella ansawdd gofal yn y GIG. Am fanylion cyswllt, gweler yr adran 'Cymorth Pellach'.

Beth os na chafodd fy mhroblem ei achosi gan feddyg?

Dydy esgeulustod clinigol ddim yn cynnwys triniaeth gan feddyg yn unig. Gallwch hawlio esgeulustod meddygol yn erbyn unrhyw weithiwr gofal iechyd proffesiynol nad ydyn nhw wedi rhoi'r gofal neu'r driniaeth gywir i chi, sydd wedi eich anafu. Mae hyn yn cynnwys, er enghraifft:

- Ymwelwyr iechyd;
- Nyrsus;
- Bydwragedd;
- Ffisiotherapyddion;
- Osteopathiaid;
- Ymarferwyr preifat;
- Timau gofal iechyd meddwl;
- Gwasanaethau labordai;
- Deintyddion;
- Technegwyr meddygol neu ddeintyddion;
- Optegwyr
- Gwasanaeth ambiwlans.

Sut ydw i'n hawlio iawndal?

Yn Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon does dim system ar hyn o bryd i dalu iawndal yn awtomatig i bobl sydd wedi bod dioddef damwain feddygol. Weithiau, gall darparrydd gofal iechyd gyfaddef eu bod wedi gwneud camgymeriad, a chynnig arian i chi ond fe fydd hynny fel rheol am anafiadau neu golledion cymharol fân nad yw'n golygu cynnwys y system gyfreithiol. Yn aml gelwir hyn yn daliad 'ex-gratia'. Ond yn y rhan fwyaf o achosion fe fydd angen i chi wneud hawliad cyfreithiol am 'esgeulustod clinigol' (a elwir hefyd yn 'esgeulustod meddygol').

Yng Nghymru, os ydych wedi dioddef niwed meddygol ac os y penderfynir bod yna rywmedigaeth gymhwys, ers Ebrill 2011, o dan eu Trefniadau Unioni Camweddau'r GIG, gellir gwneud cynnig o iawndal ariannol am achosion hyd at £25,000. Cyfeirier at ein dalen wybodaeth: 'Gweithdrefn Gwynion y GIG yng Nghymru (Gweithio i Wella)' am fanylion pellach.

Taliadau ex gratia

Mae sawl mantais i daliadau ex gratia, a'r prif un ydy nad oes rhaid i chi ddioddef y gost a phwysau o gymryd camau cyfreithiol. Ond, does dim sicrwydd y byddwch yn cael cynnig

taliad ex gratia (hyd yn oed os ydych yn gofyn amdano) na chwaith y bydd yr hyn a gewch cymaint ag y byddech yn gallu ei dderbyn trwy'r llysoedd.

Os ydych yn cael cynnig taliad ex gratia, siaradwch gydag AvMA neu gyfeithiwr esgeulustod clinigol cyn ei dderbyn. Os byddwch yn ei dderbyn, mae hynny fel rheol yn golygu na allwch gymryd camau cyfreithiol yn nes ymlaen.

Sut ydw i'n penderynu a ddylwn i gymryd camau cyfreithiol ai peidio?

Os ydy'ch cyfeithiwr yn eich cynghori bod gennych sail am hawliad cyfreithiol, mae angen i chi feddwl a ddylech chi gymryd camau cyfreithiol ai peidio. Dydy hynny ddim yn benderfyniad i'w gymryd yn ysgafn. Mae gwneud hawliad cyfreithiol yn creu straen. Fe fydd rhaid i chi ailadrodd yr hyn sydd wedi digwydd i chi sawl gwaith a gall hyn fod yn trawmatig ac yn ofidus.

Mae cymryd camau cyfreithiol yn gallu effeithio ar eich triniaeth barhaus. Gall meddygon a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill ymddwyn yn wahanol tuag atoch os ydyn nhw'n gwybod eich bod yn cymryd camau cyfreithiol.

Mae angen i chi feddwl a allwch chi fforddio talu am gamau cyfreithiol a'r risg o golli arian os ydych yn colli'ch achos. Pan fyddwch yn cychwyn camau cyfreithiol, does dim sicrwydd y byddwch yn ennill eich achos, neu os byddwch yn ennill, y byddwch yn derbyn y swm o iawndal yr ydych ei eisïau.

Ond, yn ogystal â chael iawndal, gall yr ymchwiliad cyfreithiol weithiau eich helpu i gael esboniad o'r hyn a ddigwyddodd i chi os nad ydych wedi derbyn un eisoes. Does dim dewis gan nifer o bobl sydd wedi dioddef damwain feddygol ond cymryd camau cyfreithiol:

- i dalu am ofal neu offer angenrheidiol; neu
- lle maen nhw eisoes wedi colli llawer o arian (er enghraifft trwy golli enillion).

Noder: mae'r system gyfreithiol yn yr Alban ychydig yn wahanol i weddill y DU, ond er hynny mae nifer o'r egwyddorion canlynol yn dal yn berthnasol. Cyfeirier at y daflen arbenigol ar yr Alban neu cysylltwch â ni am gyngor.

Oes modd i mi wneud hawliad cyfreithiol heb ddefnyddio cyfeithiwr?

Mae'n hynod o anodd dwyn hawliad esgeulustod clinigol eich hun, heb ddefnyddio cyfeithiwr. Mae hawliadau esgeulustod clinigol bron yn ddiethriad yn gymhleth iawn, yn bennaf oherwydd y dystiolaeth feddygol gymhleth y bydd ei hangen arnoch i gyflwyno eich achos. Ac os byddwch yn ceisio dod ag achos eich hun ac yn colli, mae'n berygl y bydd rhaid i chi dalu costau'r ochr arall. Mewn achosion eithafol, gall y llysoedd roi cyngor i chi, er enghraifft, lle nad oes gennych eich cymorth cyfreithiol arbenigol eich hun, oherwydd:

- nad oes gennych ddigon o arian; a
- bod rhaid i chi gadw eich hawliad yn fyw hyd nes y gallwch ddarganfod rhagor o arian neu i gael cyfeithiwr newydd i weithredu ar eich rhan.

Sut ydw i'n darganfod y cyfreithiwr cywir?

Oherwydd bod hawliadau esgeulustod clinigol yn gymhleth iawn mae angen i chi ddefnyddio cyfreithiwr sy'n arbenigo mewn achosion o'r fath ac sy'n deall y materion meddygol a chyfreithiol dan sylw.

Mae cyfreithwyr sydd wedi'u cymeradwyo i fod ar Banel Cyfeirio Gweithredu yn erbyn Damweiniau Meddygol (AvMA) yn cael eu hasesu a'u monitro gan AvMA. Gallwn eich rhoi mewn cysylltiad gyda chyfreithiwr priodol neu gallwch ymchwilio iddyn nhw eich hun. Am fanylion cyswllt gweler yr adran 'Cymorth Pellach'.

Pa gymorth arall y mae cyfreithiwr yn gallu ei roi?

Mae cyfreithwyr esgeulustod cyfreithiol arbenigol yn gallu rhoi cyngor hefyd ar faterion perthynol. Gall y rhain gynnwys

- os ydy'r ysbyty neu'r meddyg eisiau atal triniaeth;
- y ddeddf Hawliau Dynol a'ch hawliau fel claf;
- Rhwymedigaeth cynnyrch (er enghraifft os ydych wedi derbyn anaf oherwydd cyffur neu ddyfais meddygol diffygiol);
- eich helpu i wneud cwyn ffurfiol i gorff rheoleiddiol proffesiynol (er enghraifft, y Cyngor Meddygol Cyffredinol); a'r driniaeth neilltuol yr ydych ei heisiau.

Faint o amser sydd gennyf i hawlio iawndal?

Rhaid i chi ddwyn hawliad am esgeulustod clinigol o fewn tair blynedd (a elwir yn 'gyfnod cyfyngiad'). Mae'r cyfnod cyfyngiad yn cychwyn naill ai o:

- pryd y cawsoch eich triniaeth; neu
- pan wnaethoch sylweddoli i ddechrau eich bod wedi dioddef anaf (a elwir yn 'ddyddiad gwybodaeth').

Mae hi bob amser yn ddiogelach i dybio bod y cyfyngiad amser tair blynedd yn rhedeg o ddyddiad y driniaeth a achosodd eich anaf oni bai bod cyfreithiwr yn eich cynghori fel arall.

A oes eithriadau ynghylch y cyfyngiad amser?

O ran plant, dydy'r cyfyngiad amser ddim yn cychwyn tan eu pen blwydd yn 18 oed. Mae hyn yn golygu y byddai gan blentyn a dderbyniodd anaf wrth eu geni yn cael tan eu bod yn 21 oed cyn cymryd camau cyfreithiol. Ond does dim rhaid iddyn nhw aros tan hynny. Cyn iddyn nhw fod yn 18 oed, gall rhiant neu berson arall agos atyn nhw wneud hawliad ar eu rhan (a elwir yn weithredu fel eu 'cyfaill cyfreitha').

Hefyd, os ydy'r achos yn ymwneud â pherson na all reoli eu materion eu hunain oherwydd anabledd meddyliol, dydy'r cyfyngiad amser tair blynedd ddim yn gymwys hyd nes (ac oni bai) y byddan nhw'n goresgyn eu hanabledd.

Mewn achosion eithafol gall y llysoedd ganiatáu eich hawliad ar ôl y cyfyngiad amser o dair blynedd. Allwch chi ddim dibynnu ar hynny fodd bynnag, ond os oes rheswm da pam nad

oeddech yn gallu cyflwyno eich hawliad o fewn tair blynedd, dylech siarad gyda chyfreithiwr am y posibilrwydd o gychwyn hawliad.

Dylech geisio cael cyfreithiwr i weithio ar eich achos ymhell cyn diwedd y cyfnod cyfyngiad amser o dair blynedd (os yn bosibl o fewn dwy flynedd i'r ddamwain) oherwydd:

- fe fydd y cyfreithiwr angen amser i ymchwilio a pharatoi eich achos cyn cychwyn achos llys; a
- y cynharaf y caiff eich achos ei ymchwilio, y mwyaf tebygol ydy hi y bydd y dogfennau angenrheidiol i brofi eich achos yn dal ar gael ac y bydd pobl yn gallu cofio beth ddigwyddodd.

Sut y bydd y cyfreithiwr yn asesu fy achos?

Pan fyddwch yn cysylltu â chyfreithiwr i ddechrau, fe fyddan nhw'n cynnal asesiad i benderfynu a ydyn nhw eisiau derbyn eich achos, yn seiliedig ar ba mor gryf ydy eich achos. Gallwch helpu'r cyfreithiwr trwy roi cymaint o wybodaeth â phosibl at ei gilydd cyn cysylltu â nhw. Fe fydd y cyfreithiwr yn seilio'u penderfyniad ar:

- beth y gallwch ddweud wrthyn nhw am yr hyn a ddigwyddodd;
- eich cofnodion meddygol os oes rhai gennych;
- y materion meddygol a chyfreithiol;
- faint y gallai gwerth eich hawliad fod;
- unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd gennych (fel llythyrau cwynion neu bapurau eraill i gefnogi eich achos);
- a ydy eich hawliad o fewn y cyfyngiad amser cyfreithiol; a
- sut y caiff eich costau cyfreithiol eu talu.

Os ydych yn siarad gyda nifer o gyfreithwyr ond nad ydyn nhw yn gallu eich helpu, neu yn gwrthod eich helpu, gallwch gysylltu gyda Gweithredu yn erbyn Damweiniau Meddygol am gyngor.

Cyn i gyfreithiwr dderbyn eich achos, fe fyddan nhw angen sicrhau :

- bod sail cyfreithiol da i'ch achos ac felly â siawns rhesymol o lwyddo; a
- bod swm yr iawndal y gallech ei hawlio yn ddigonol i gyfiawnhau'r costau cyfreithiol, amser a straen.

Beth os nad ydw i'n gallu fforddio talu am gyfreithiwr?

Mae ymchwilio i achos o esgeulustod clinigol yn gostus a gall fod yn filoedd o bunnoedd. Os na allwch fforddio talu am hyn eich hun, mae sawl ffordd o gael cymorth gyda'r costau.

Cyllid cyhoeddus

Ar hyn o bryd gall fod gan unrhyw berson sydd â hawliad esgeulustod clinigol hawl i dderbyn Cymorth Cyfreithiol yn belled â 1) bod eu siawns o lwyddiant yn rhesymol; a 2) bod eu hincwm a'u cyfalaf o dan lefel neilltuol. Ond o Ebrill 2013 dim ond y rhai sydd wedi derbyn anaf yn ystod beichiogrwydd, esgor neu'r wyth wythnos gyntaf o fywyd a fydd yn gymwys i dderbyn Cymorth Cyfreithiol. Mae hyn er gwaethaf y ffaith bod gennych achos cryf ac/neu ar incwm isel iawn fel arall.

Cymorth gan undebau llafur

Os ydych yn aelod o undeb llafur neu fath tebyg o gorff, efallai y bydd yn gallu eich helpu gyda'r costau cyfreithiol

Yswiriant costau cyfreithiol

Dylech wirio eich polisïau yswiriant (yn enwedig eich polisi yswiriant tŷ) i weld os ydyn nhw'n cynnwys yswiriant costau cyfreithiol am hawliadau anafiadau personol. Gall y polisïau hyn gynnwys yswiriant am gostau cyfreithiol hyd at gyfyngiad penodedig. Efallai y bydd eich cwmni yswiriant eisïau i chi fynd at gyfreithiwr ar eu rhestr nhw ond dylech sicrhau bod y cyfreithiwr yn aelod o un o'r paneli esgeulustod clinigol arbenigol – yn ddelfrydol Panel AvMA.

Cytundebau 'dim ennill, dim ffi' neu 'ffi amodol' (CFAs)

Mae'r cytundebau hyn, a elwir yn swyddogol yn 'gytundebau ffi amodol' yn golygu nad oes rhaid i chi dalu ffioedd eich cyfreithiwr os nad ydych yn ennill eich achos. Ond, oherwydd bod hawliadau esgeulustod clinigol yn gymhleth iawn ni fydd cyfreithwyr fel rheol yn cytuno â chytundeb ffi amodol oni bai bod tystiolaeth gref i ddangos y byddwch yn ennill eich achos.

Mae hyn yn golygu y bydd rhaid i chi efallai dalu miloedd o bunnoedd i gasglu tystiolaeth cyn i gyfreithiwr lunio cytundeb ffi amodol. Efallai bydd rhaid i chi gael yswiriant hefyd (a elwir yn 'yswiriant ar ôl y digwyddiad') i'ch amddiffyn rhag y posibilrwydd o orfod talu costau'r ochr arall os ydych yn colli. Gall yr yswiriant hwn ei hun fod yn ddrud iawn.

Beth sy'n rhaid i mi ei brofi i hawlio iawndal?

I wneud hawliad cyfreithiol am iawndal rhaid i chi allu profi dau beth; sef:

- roedd y gofal y gwnaethoch ei dderbyn yn is na'r safon diswylidig o weithiwr iechyd gofal proffesiynol rhesymol gymwys yn ymarfer yn y maes penodol hwnnw o feddygaeth (esgeulustod); a
- rydych wedi dioddef anaf corfforol neu seicolegol o ganlyniad uniongyrchol i weithred neu weithrediadau esgeulus ('achosiant').

Ni allwch hawlio iawndal dim ond oherwydd bod rhywun wedi gwneud rhywbeth anghywir. Rhaid i chi brofi bod hyn wedi achosi anaf i chi.

Er enghraifft, efallai bod meddyg yn esgeulus os na wnaeth archwilio plentyn sâl yn gywir ac a dderbyniodd diagnosis yn ddiweddarach o lid yr ymennydd. Os ydy'r rhieni yn penderfynu

cymryd camau cyfreithiol oherwydd bod eu plentyn yn dioddef cymhlethdodau hir dymor, ni fyddai hawliad yn llwyddo oni bai bod modd profi y byddai diagnosis cynharach wedi atal anafiadau'r plentyn. Dydy'r ffaith na wnaeth y meddyg archwilio'r plentyn yn gywir ddim yn ddigon ynddo'i hun.

Sut y bydd y cyfreithiwr yn ymchwilio i'm hawliad?

Fe fydd y prif dystiolaeth yr ydych ei hangen am hawliad esgeulustod clinigol yn dod oddi wrth arbenigwyr meddygol annibynnol, sef meddygon neu arbenigwyr gofal iechyd eraill sy'n gallu rhoi barn arbenigol ar eich achos. Fe fyddan nhw'n seilio eu barn ar:

- eich cofnodion meddygol;
- eich datganiad o'r hyn a ddigwyddodd; ac
- unrhyw ddogfennau eraill i gefnogi eich achos

Efallai y byddwch yn cael archwiliad gan:

- eich arbenigwr neu arbenigwyr meddygol; ac
- arbenigwyr sy'n gweithio dros yr ysbyty neu'r meddyg yr ydych yn cyflwyno hawliad yn eu herbyn.

Os nad yw eich cyfreithiwr yn gallu darganfod unrhyw arbenigwyr meddygol a fydd yn cefnogi eich hawliad, ni fydd eich hawliad yn llwyddo.

Am beth y gallaf hawlio iawndal?

Gallwch hawlio iawndal am unrhyw anafiadau neu golledion y gallwch brofi oedd yn ganlyniad uniongyrchol i esgeulustod y darparydd gofal iechyd. Gallai hyn gynnwys iawndal am

- poen a dioddefaint, yn cynnwys er enghraifft triniaeth barhaus a llawdriniaethau pellach;
- os na allwch gyflawni diddordebau neu weithgareddau dyddiol (a elwir yn 'colli amwynder');
- colli enillion;
- costau gofal nyrsio yn cynnwys y gofal a ddarperir gan aelodau'r teulu, offer arbenigol, gofal meddygol neu gymorth angenrheidiol i gyflawni gweithgareddau dyddiol;
- costau addasu eich cartref; neu
- anaf seicolegol.

Os ydy'r achos yn ymwneud â rhywun a fu farw oherwydd esgeulustod clinigol gallwch hawlio'r canlynol:

- os bu farw eich gŵr, gwraig, partner sifil neu blentyn dan 18 oed ar ôl Ionawr 2008 gallwch hawlio iawndal profedigaeth o £11,800.
- os oeddech yn ariannol ddibynnol ar y person a fu farw gallwch hawlio am golli cymorth ariannol (a elwir yn 'colli dibyniaeth').
- gallwch hefyd hawlio ar ran rhywun sydd wedi marw am eu poen a'u dioddefaint ac am unrhyw golled ariannol a achoswyd trwy esgeulustod.

Pan fyddwch yn gweld cyfreithiwr i ddechrau, efallai mai dim ond syniad bras y byddan nhw'n gallu ei roi i chi o faint o iawndal y gallwch ei gael. Fe fydd rhaid iddyn nhw gymryd i ystyriaeth rhai budd-daliadau nawdd cymdeithasol yr ydych yn eu derbyn oherwydd eich

anaf (fel Cymorth Incwm). Y rheswm dros hynny ydy y gallai eich budd-daliadau effeithio ar faint o iawndal y byddwch yn ei dderbyn.

A fydd rhaid i mi ymddangos yn y llys?

Mae yna siawns da na fydd eich achos yn cyrraedd y pwynt o fynd i'r llys, lle y byddai'n rhaid i chi ymddangos.

Tan ychydig flynyddoedd yn ôl gallai hawliadau esgeulustod clinigol gymryd blynyddoedd i'w trafod ond cyflwynwyd rheolau newydd ym 1999 yn trafod y modd y mae achosion fel achosion esgeulustod clinigol yn cael eu rhedeg, ac mae hynny wedi golygu bod achosion bellach yn cael eu cwblhau (neu eu 'setlo') yn llawer cyflymach, yn aml o fewn un i ddwy flynedd, ac yn llai costus.

Mae mwy a mwy o achosion bellach yn cael eu setlo ar y cam 'cyn-gweithredu' (cyn cyhoeddi achosion cyfreithiol). O dan y rheolau newydd anogir chi a'r corff yr ydych yn gwneud hawliad yn ei erbyn (y diffynnydd) i rannu gwybodaeth am eich cwyn i geisio setlo'r mater yn gyflym.

Fe fydd angen i'ch cyfreithiwr ddechrau achos cyfreithiol ffurfiol os:

- nad ydy'r diffynnydd yn derbyn y dylen nhw dalu iawndal i chi; neu
- os ydych yn agos at y cyfyngiad amser tair blynedd.

Unwaith y bydd hyn yn digwydd, fe fydd eich achos yn rhedeg ar amserlen a nodir gan y llys. Ond mae'n anhebygol y bydd eich achos yn mynd i'r llys, a chithau'n gorfod rhoi tystiolaeth. Mae'r rhan fwyaf o achosion yn cael eu setlo cyn y dyddiad a nodwyd ar gyfer achos llys.

Er mwyn ceisio helpu pobl i gyrraedd setliad cynnar mae'r llys hefyd eisiau annog y ddwy ochr i edrych ar ddulliau eraill o setlo anghydfodau, yn cynnwys cyfryngu. Am gyngor ynghylch dulliau o setlo anghydfodau heb fynd i'r llys, holwch gyfreithiwr neu cysylltwch ag AvMA.

Beth alla'i wneud os oedd fy nhriniaeth yn breifat?

Os oedd eich triniaeth yn breifat, mae angen i chi ddilyn yr un camau ag y byddech am ofal GIG, ac eithrio na fyddwch yn gallu defnyddio gweithdrefn gwynion y GIG. Ond, mae'n ofynnol i bob ysbyty a chlinig preifat weithredu eu gweithdrefn gwynion eu hunain yn cynnwys gwybodaeth ar sut i fynd â chwyn ymhellach. Am ragor o wybodaeth gweler ein taflen arbenigol 'Gofal Iechyd Preifat'.

Os ydych yn meddwl am gamau cyfreithiol, efallai bod gennych hawliadau yn erbyn eich meddyg preifat a'r ysbyty neu'r clinig ble y cawsoch driniaeth. Hefyd, oherwydd bod gennych gontract gyda'ch meddyg preifat neu ysbyty preifat (neu'r ddau) efallai y byddwch yn gallu erlyn am dorri contract yn ogystal ag am esgeulustod. Fe fydd angen i chi drafod hyn gyda chyfreithiwr os ydych yn meddwl eich bod mewn sefyllfa o'r fath.

Beth ddylwn i ei wneud os oes perthynas i mi wedi marw o ganlyniad i ddamwain feddygol?

Yn ogystal â chymryd y camau y byddech yn eu cymryd pe byddech chi wedi'ch anafu yn ystod triniaeth feddygol, dylech gysylltu gyda'r crwner lleol.

Mae crwner yn gyfrifol am ymchwilio i unrhyw farwolaeth lle nad ydy rhywun wedi marw o achosion naturiol (er nad ydyn nhw'n ymchwilio i farw-enedigaethau). Dylech ddweud wrth y crwner am eich pryderon cyn gynted ag y gallwch, oherwydd fe fyddan nhw fel rheol yn gofyn am archwiliad post mortem. Fe fydd y crwner yn cynnal ymchwiliad cyntaf i benderfynu a ddylid cynnal cwest neu wrandawriad cyhoeddus.

Os gallwch chi, dylech ofyn am gyngor gan AvMA neu gyfreithiwr esgeulustod clinigol yn gynnar. Gall y cyfreithiwr gysylltu gyda'r crwner a chyflwyno rhesymau pam y dylid cynnal cwest. Gallan nhw hefyd drefnu i gael ail bost mortem os oes angen. Os caiff cwest ei gynnal gall eich cyfreithiwr drefnu bod cynrychiolydd cyfreithiol yno i ofyn cwestiynau ar eich rhan.

Os na allwch ddarganfod cyfreithiwr i'ch cynrychioli gall Gwasanaeth Cwest AvMA ddarparu cymorth ar gyfer nifer cyfyngedig o achosion. Gall fod yn ddefnyddiol hefyd i chi gyfeirio at ein dalen wybodaeth 'Ymchwilio i Farwolaethau a achosir gan Driniaeth Feddygol, Crwneriaid a Chwestau'.

Beth os cafodd fy anaf ei achosi gan offer meddygol diffygiol?

Os cafodd eich anaf ei achosi gan ddyfais meddygol diffygiol (er enghraifft, cymal clun artiffisial), efallai y byddwch yn gallu hawlio dan y Ddeddf Diogelu Defnyddwyr 1987. Mae hyn yn berthnasol hefyd i gynyrch meddygol (er enghraifft os cawsoch anaf neu os aethoch yn sâl oherwydd cynnyrch gwaed).

Os felly, fe fyddai eich hawliad yn erbyn gwneuthurwr y cynnyrch (neu'r mewnoforiwr neu gyflenwr) ac nid yn erbyn yr ysbyty neu'r meddyg fu'n eich trin. Mae yna gyfreithwyr esgeulustod clinigol sy'n arbenigo yn y math yma o hawliad. Fe fydd Gweithredu yn erbyn Damweiniau Meddygol yn gallu eich helpu i ddarganfod cyfreithiwr os ydych yn y sefyllfa yma.

Cymorth Pellach:

Gweithredu yn erbyn Damweiniau Meddygol (AvMA)

AvMA ydy'r unig elusen sy'n benodol yn cefnogi pobl sydd wedi derbyn anafiadau trwy ddamweiniau meddygol. Mae AvMA yn cyflogi tîm o'i gynghorwyr meddygol a chyfreithiol hyfforddedig, gwirfoddolwyr a staff cymorth i helpu cleifion gyda'u cwynion am driniaeth feddygol yn cynnwys cymorth ar gamau cyfreithiol potensial. Mae gan AvMA banel o gyfreithwyr esgeulustod cyfreithiol arbenigol ac mae'n darparu cyngor, gwybodaeth a hyfforddiant i gyfreithwyr yn ogystal ag ymgychu ar ran dioddefwyr damweiniau meddygol ac yn hyrwyddo gwell diogelwch i gleifion.

Gallwch siarad yn uniongyrchol gyda chynghorydd llinell gymorth ar ein llinell gynghori cleientiaid ar 0845 123 2352 ar gost cyfradd lleol (Llun-Gwener 10am-5pm). Ar adegau eraill gallwch ofyn am becyn gwybodaeth; ewch i'n gwefan www.avma.org.uk; cysylltwch â ni trwy ysgrifennu at AvMA, 44 High Street, Croydon CR0 1YB.

Gwasanaeth Cydlynu a Chynghori Cleifion (PALS) (Lloegr)

Wedi'u lleoli mewn Ymddiriedolaethau GIG, a'u cyflogi ganddyn nhw, gall PALS ddarparu cymorth gyda materion o ddydd i ddydd a phryderon am wasanaethau'r GIG. Y nod ydy datrys problemau ar unwaith lle bynnag mae hynny'n bosibl neu i gyfeirio cleifion at y person neu'r corff priodol i'w helpu. Holwch eich Ymddiriedolaeth GIG neu Ymddiriedolaeth Gofal Sylfaenol am fanylion eu gwasanaeth PALS.

(ICAS) Gwasanaeth Eiriolaeth Cwynion Annibynnol (Lloegr)

Mae ICAS yn darparu cyngor a chymorth annibynnol ar wneud cwyn am wasanaethau GIG. Dylai manylion am eich gwasanaeth ICAS lleol fod ar gael gan eich darparrydd gofal iechyd lleol neu swyddfa PALS neu gan Galw Iechyd (gweler isod). Fe fydd cynghorwyr llinell gymorth AvMA hefyd yn gallu rhoi cyngor i chi am eich gwasanaeth lleol.

Cynghorau Iechyd Cymuned (Cymru)

Y rhain ydy'r cyrff gwarchod cymunedol ar gyfer y gwasanaethau iechyd yng Nghymru., Maen nhw'n gallu cynnig cyngor a chymorth cyfrinachol am ddim ar wneud cwyn am wasanaeth GIG. Mae gan AvMA ddalen wybodaeth: 'Cysylltiadau yng Nghymru' ar ein gwefan, sy'n rhoi manylion cyswllt holl CïCau a Byrddau Iechyd yng Nghymru. Mae modd cael manylion am eich CïC agosaf hefyd oddi wrth Bwrdd Cynghorau Iechyd Cymuned yng Nghymru :

Ffôn: 0845 644 7814 / 02920 235 558 Gwefan: www.nhs.uk

Cynghorau Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol (Gogledd Iwerddon)

Mae'r rhain yn cyflawni swyddogaeth debyg i CïCau. Ffôn: 0800 917 0222

Cyngor ar Bopeth (yr Alban)

I ddarganfod eich Cyngor ar Bopeth agosaf neu eich gweithiwr achos Gwasanaeth Cynghori a Chymorth Annibynnol (IASS) ewch i wefan Cyngor ar Bopeth yr Alban yma neu edrychwch yn y llyfr ffôn o dan 'Citizens Advice Bureau'.

Y Cyngor Meddygol Cyffredinol (GMC)

Y corff rheoleiddiol i feddygon sy'n delio gyda chwynion am ffitrwydd meddygon unigol i ymarfer/camymddwyn proffesiynol.

Ffôn: 0161 923 6602 Gwefan: www.gmc-uk.org

Cyngor Deintyddol Cyffredinol (GDC)

Y corff rheoleiddiol i ddeintyddion.

Ffôn: 845 222 4141 (cyfradd lleol). Gwefan: www.gdc-uk.org

Y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC)

Y corff rheoleiddiol i nyrsus, bydwragedd ac ymwelwyr iechyd sy'n delio gyda chwynion difrifol am aelodau.

Ffôn: 020 7462 5800 / 5801 Gwefan: www.nmc-uk.org

Cyngor Gofal Iechyd a Phroffesiynau

Mae'r corff hwn yn rheoleiddio 12 o wahanol broffesiynau iechyd a gall ymchwilio i gwynion am gamymddwyn proffesiynol difrifol ganddyn nhw

Ffôn: 0800 328 4218. Gwefan: www.hpc-uk.org

Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd

Os nad ydych yn hapus gyda'r modd yr ymchwiliwyd i'ch cwyn GIG dylech gysylltu gydag Ombwdsmon y Gwasanaeth Iechyd ar y rhifau ffôn canlynol: 020 7462 5800 / 5801

0345 015 4033 (Lloegr)

01656 641150 (Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus, Cymru)

0800 34 34 24 (Ombwdsmon Gogledd Iwerddon)

Comisiwn Ansawdd Gofal (CAG)

CAG ydy rheoleiddiwr annibynnol yr holl wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yn Lloegr. Eu rôl ydy sicrhau bod y gofal a'r driniaeth a ddarperir gan ysbytai, deintyddion, ambiwlansus, cartrefi gofal a gwasanaethau yng nghartrefi pobl eu hunain ac mewn mannau eraill yn diwallu safonau cenedlaethol o ansawdd o diogelwch. Lle nad ydy safonau'n cael eu diwallu gall y CAG ddefnyddio eu pwerau eu hunain fel â ganlyn:

- Cyhoeddi dirwyon neu rybuddion.
- Atal derbyniadau i wasanaeth gofal.
- Gohirio neu ganslo cofrestriad gwasanaeth gofal

Am ragor o wybodaeth am rôl y Comisiwn Ansawdd Gofal ewch i'w gwefan: www.cqc.org.uk